

## NICHOLSON, WILLIAM (1844 - 1885), gweinidog gyda'r Annibynwyr

**Enw:** William Nicholson  
**Dyddiad geni:** 1844  
**Dyddiad marw:** 1885  
**Plentyn:** William John Nicholson  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Annibynwyr  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Richard Griffith Owen

Ganwyd yng Nghaerdybi fis Ebrill 1844. Addysgwyd ef gan ei weinidog, [William Griffith](#). Aeth i Goleg Normal Bangor, i ymgymhwyso i fod yn athro ysgol. Ar derfyn ei gwrs yn 1862 aeth yn athro i Lwydcoed, Aberdâr, ac yno, yn eglwys Horeb, y dechreuodd bregethu. Symudodd i ysgol Llanengan, Ll n. Derbyniodd alwad i ofalu am eglwysi Rhoslan a Llanystumdwy ac ordeiniwyd ef 20 Awst 1867; arhosodd yno am ryw ddwy flynedd a symudodd i eglwys Treflys, Bethesda. Yn 1872 derbyniodd alwad o eglwys enwog y Groeswen a bu yno hyd 1876, pryd yr aeth yn olynydd i '[Gwilym Hiraethog](#)' i eglwys Grove Street, Lerpwl, ac yno y bu farw, Gorffennaf 1885; claddwyd ef yn Toxteth Park Cemetery, Lerpwl, yn 41 oed. Er na bu ond 18 mlynedd yn y weinidogaeth daeth yn un o'r pregethwyr mwyaf poblogaidd, a hynny ar gyfrif newydddeb ei ddawn. ' Nid yn aml y clywid neb yn meddu mwy o allu i ddyddori ei wrandawyr,' meddai'r [Dr. John Thomas](#). Ar gyfrif ei amlygrwydd yngl n â brwydr y cyfansoddiadau (gweler [M. D. Jones](#)) cythruddodd nifer yn eglwys Grove Street; aethant allan a sefydlu eglwys arall yn Kensington yn 1878. Yr oedd Nicholson yn llenor a bardd gwyf. Yn 1881 cyhoeddodd y *Cennad Hedd*, misolyn a gylchredai gan mwyaf ymhlith yr Annibynwyr, a pharhaodd i'w olygu hyd ei farw. Yn 1876 cyhoeddodd gyfrol yn cynnwys dyfyniadau o'i bregethau ynghydag englynion a chywyddau, etc., dan y teitl *Y Dyferion*.

### Awdur

Y Parchedig Richard Griffith Owen, (1890 - 1973)

### Ffynonellau

*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, ii, 342, 378; iii, 203, 295; v, 406-13

*Y Dysgedydd*, 1867, 397

*Bangor Normal College for the training of teachers for British schools in Wales Report*, 1906

O. L. Roberts, *Lloffion Grawnwin sef cyfrol-goffa y Parchedigion William Roberts, William Nicholson, D.M. Jenkins, Hugh Jones, David John, H. Parry Thomas, o gyfundeb Anibynwyr Cymreig Lerpwl, Manchester, a'r amgylchoedd* (Lerpwl 1907), 35

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734684](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

